OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 2689

# Rheoliadau Mynediad i Wybodaeth (Mabwysiadu Ôl-gychwyn) (Cymru) 2005

## RHAN 6

## Y COFRESTRYDD CYFFREDINOL

### Holi am wybodaeth gan y Cofrestrydd Cyffredinol

**17.**—(1) Os bydd —

(a) person mabwysiedig sydd wedi cael ei 18 oed yn gofyn am wybodaeth gan asiantaeth fabwysiadu o dan adran 60(2)(a) o'r Ddeddf, a fyddai'n ei alluogi i gael copi ardystiedig o gofnod ei eni; a

(b) nad yw'r wybodaeth honno gan yr asiantaeth,

rhaid i'r asiantaeth holi am yr wybodaeth gan y Cofrestrydd Cyffredinol.

(2) Os bydd asiantaeth fabwysiadu yn holi am wybodaeth gan y Cofrestrydd Cyffredinol o dan baragraff (1), rhaid i'r asiantaeth roi'r wybodaeth ganlynol iddo yn ysgrifenedig, i'r graddau y mae'n hysbys—

(a) enw, dyddiad geni a gwlad enedigol y person mabwysiedig;

(b) enw tad neu fam mabwysiol y person hwnnw;

(c) dyddiad y gorchymyn mabwysiadu.

### Mae'r Cofrestrydd Cyffredinol i ddatgelu gwybodaeth sy'n ymwneud â'r asiantaeth fabwysiadu briodol a'r Gofrestr Cyswllt Mabwysiadu

**18.**—(1) Rhaid i'r Cofrestrydd Cyffredinol —

(a) datgelu i unrhyw berson (gan gynnwys person mabwysiedig) unrhyw wybodaeth y mae'n gofyn amdani y mae ei hangen arno i'w gynorthwyo i gysylltu â'r asiantaeth fabwysiadu sef yr asiantaeth fabwysiadu briodol yn achos y person a bennir yn y gofyniad (neu, yn ôl y digwydd, yn achos y ceisydd); a

(b) datgelu i'r asiantaeth fabwysiadu briodol unrhyw wybodaeth sy'n ofynnol gan yr asiantaeth o ran cais o dan adran 60, 61 neu 62 o'r Ddeddf, ynghylch unrhyw gofnod sy'n ymwneud â pherson mabwysiedig ar y Gofrestr Cyswllt Mabwysiadu(**1**).

(2) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu dalu unrhyw ffi y dyfarna'r Cofrestrydd Cyffredinol ei bod yn rhesymol ar gyfer datgelu gwybodaeth o dan baragraff (1)(b).

(3) Yn y rheoliad hwn mae i "asiantaeth fabwysiadu briodol" yr ystyr a roddir i "appropriate adoption agency" gan adran 65(1) o'r Ddeddf.

(**1**) I gael diffiniad o Gofrestr Cyswllt Mabwysiadu *gweler* "Adoption Contact Register" yn adran 80 o'r Ddeddf.

***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*